O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2447 (Cy. 265)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Aros) 2012

Gwnaed	*20 Medi 2012*
Yn dod i rym	*28 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 o Lundain i Gaergybi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1) , 2(1) a (2), 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Aros) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn –

mae i "bathodyn person anabl" yr ystyr a roddir i "disabled person's badge" yn Rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur (Cymru) 2000(**2**).

mae i "disg barcio" yr ystyr a roddir i "parking disc" yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**3**) .

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:-

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-

(**1**) 1984 p.27 Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru
(**2**) O.S. 2000/1786.
(**3**) O.S. 2000/1785.

(a) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, yn cael ei arddangos ar y panel neu'r dangosfwrdd fel bod blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(b) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg parcio yn y lle perthnasol :-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael

ei ddefnyddio, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef:-

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) gwaith cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, newid neu drwsio, ar y darnau hynny o'r gefnffordd, neu ar dir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebu 2003(**1**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn hwnnw o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) i gerbyd sy'n aros;

(i) pan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r person sydd â rheolaeth arno, stopio;

(ii) pan fo'r person sydd â rheolaeth arno yn rhwym o stopio er mwyn osgoi damwain; neu

(iii) pan fo'r person sydd â rheolaeth arno yn cael ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth.

(2) Nid oes dim yn Erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi marcio arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos arno aros ar unrhyw un o ochrau'r darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, a bod hwnnw'n gyfnod sydd wedi ei wahanu gan ysbaid o un awr o leiaf oddi wrth gyfnod blaenorol pan fu'r un cerbyd ar yr un diwrnod yn aros ar unrhyw un neu rai o'r darnau penodedig o'r gefnffordd.

(**1**) 2003 p.21.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru

Dyddiedig 20 Medi 2012

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Darnau o Gefnffordd yr A5 ym Metws-y-coed yn Sir Conwy.

Ochr ddeheuol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Dolydd Terrace, Pentre Du mewn cyfeiriad dwyreiniol i bwynt sydd 15 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Ffordd Gethin, Bro Gethin mewn cyfeiriad dwyreiniol i bwynt sydd 30 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y gyffordd honno.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5 a elwir yn Ffordd Caergybi, Betws-y-coed, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Vicarage Road mewn cyfeiriad deheuol i bwynt sydd 15 o fetrau i'r de o linell ganol y gyffordd honno.

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (BETWS-Y-COED, CONWY) (Gwahardd Aros) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 sy'n dod i rym ar 28 Medi 2012.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar ochrau'r darnau o gefnffordd yr A5 o Lundain i Gaergybi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") ym Metws-y-coed yn Sir Conwy, fel a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 27 Medi 2012, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn ynghyd â phlan cysylltiedig yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Heol yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DF neu gellir eu cael yn rhad ac am

ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA966204.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth o'i fewn, ar y seiliau:

(a) nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu

(b) y rhagfarnwyd yn sylweddol yn erbyn ei fuddiannau gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 27 Medi 2012 wneud cais i'r Uchel Lys i atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a gaiff ei chynnwys ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Traffig Parhaol', '2012').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth,
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Darnau o Gefnffordd yr A5 ym Metws-y-Coed yn Sir Conwy.

Ochr ddeheuol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Dolydd Terrace, Pentre Du mewn cyfeiriad dwyreiniol i bwynt sydd 15 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Ffordd Gethin, Bro Gethin mewn cyfeiriad dwyreiniol i bwynt sydd 30 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y gyffordd honno.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5 a elwir yn Ffordd Caergybi, Betws-y-coed, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Vicarage Road mewn cyfeiriad deheuol i bwynt sydd 15 o fetrau i'r de o linell ganol y gyffordd honno.